Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il o Orffennaf 2026

Yn bresennol oedd Menai Hughes, Ffuon Williams, Einion Edwards, Prys Ellis, Guto Jones, Dyfan Jones (cadeirydd) a Cyngh Gwennol Ellis, cafwyd ymddiheuriadau gan Maria Roberts, Kay Murphy a Llio Morris.
Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.
Gohebiaeth
[1] Archwiliad mewnol - wedi cael ei gwblhau gan Emyr Mortimer, cymerawyir y cyfrifon fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y clerc ar cadeirydd cyn ei gyrru mlaen ir Archwiliwyr Cymru.
[1.1] Fit Conwy – deallwn bod yna arian ar gael i dalu am y cynllun chwarae haf yn Ngherrig y Drudion haf 2026.
[1.2] 'Kids with Cancer' – yn gofyn am gyfraniad - pasiwyd ei adael am eleni.
[1.3] Cronfa fferm wynt Clocaennog - llythyr nodi ein bod wedi derbyn grant o £50,000 tuag at y toiledau cyhoeddus yn Ngherrig ynDrudion,
[1.4] Marc Roberts – anfoneb am wneud gwaith grantiau ir gymuned £1,080.00 pasiwyd iw dalu.
[1.5] Haydn Roberts - anfoneb am dorri gwari yn Tyn Rhyd a fynwent yr Eglwys am Ebrill, Mai a Mehefin £670.00 pasiwyd iw dalu
[1.6] Scottish Power - anfoneb £26.32 wedi ei dalu DD
[1.7] Emyr Mortimer - anfoneb am wneud gwaith Archwilio Mewnol. £480.00 – pasiwyd iw dalu.
[1.8] Emyr Mortimer - LLythyr penodi archwilydd mewnol - derbyniwyd ac fe'u harwyddwyd gan y Cyngor Bro.
[1.9] Carol Humphreys - anfonebau i gael blodau yn y potiau yn y pentref £44.98 pasiwyd iw dalu.
[2] Plus Net - anfoneb £26.00 wedi ei dalu DD
[2.1] HMRC - adaliad TAW £291.37
[2.2] Cyngor B Sirol Conwy - anfoneb am gyfraniad tuag at y llyfrgell yn Uwchaled. £1,489.00 pasiwyd iw dalu.
[2.3] Emyr Moritimer - Tal am heirio yr Ystafell Plwyf ir cyfrifydd wedi derbyn £900.00
[2.4] Cyngor Conwy – wedi derbyn tal am Canolfan Glyd £660.00
[2.5] Cadwyn Clwyd - wedi derbyn £9,900 arian grant fferm wynt Brenig. (10% yn cael ei gadw yn ol tan fydd y gwaith wedi ei orffen)
[2.6] Ffioedd y fynwent - Gosod carreg fedd y diweddar Bryn Roberts £50.00, Claddu y diweddar Brenda May jones £150.00, y diweddar Hefin Edwards £400.00 a diweddar Ifor Davies £400.00
[2.7] Cais cynllunio Sied amaethyddol yn Fron Heulog – dim gwrthwynebiad. (ni gyfrannodd y Cgh Gwennol Ellis ir drafodaeth).
[2.8] Gair gan Cgh Gwennol Ellis – dywedodd bod ffordd Glasfryn i Cefn Brith wedi ei tharmacio ac os oes rhywun yn ymwybodol am ffordd amgen sylw i adael iddi wybod.
Yn dilyn noson a gynaliwyd yn y Llew Gwyn cawn arddeall bod digwyddiad gwrth- gymdeithasol wedi bod yn mynd ymlaen yn y cael chwarae Cae Llwyd, sydd yn peri pryder, gan bod y cae yn berchen ir Cyngor Bro, efallai y buasai n syniad i roi nodyn ar 'Face Book' y Cyngor yn nodi bydd yr heddlu yn cael ei galw os bydd hyn yn digwydd eto. Nodwyd llythyr Kay yn datgan ei phryder hefyd.
Unrhyw fater arall
[2.9] Mainc yn y parc – mae wedi dod i sylw gan Gyngor Conwy bod mainc yn y parc chwarae yn cael ei symud o gwmpas ac fuasai n ddoeth iw rhoi yn sownd, mae Einion Edwards yn garedig wedi cynnig y bydd yn mynd i wneud y gwaith.
[3] Mynwent Newydd – rydym wedi cael arddeall bod cerrig wedi disgyn o wal yn fynedfa y fynwent - pasiwyd gofyn i Glyn Lloyd Hughes am bris iw thrwsio.

[3.1]  Mynwent Tyn Rhyd – cafwyd cwyn gan berchenog drws nesaf ir fynwent yn cwyno bod y gwrych angen ei dorri  - pasiwyd gofyn i Haydn am bris.
[3.2]  Gwrych ger Hiraethog – cafwyd cwyn bod y gwrych angen ei dorri pasiwyd i holi Elgan Goddard a Aled Ellis efo'i dori.
[3.3]  Curb – cafwyd cwyn bod Curb tu allan ir Queens angen sylw – clerc i gysylltu ar Sir
[3.4]  Contract Cyflogaeth  - contract cyflogaeth diweddaraf wedi ei gymeradwy.
o ai lofnodi gan y Caderiydd.
[3.5]  Asesiad Risg  - wedi ei ddiweddaru ai lofnodi gan y Cadeirydd.
[3.6]  Caglu Sbwriel o gwmpas y pentref – pasiwyd i gael noson o gasglu ysbwriel ar Nos Wener 10fed o Orffennaf am 7.00 i unrhyw un sydd a diddordeb iw hyrwyddo ar Face Book y cyngor